# Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2025

## Datganiad cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer:

**Enw'r corff:** CYNGOR CYMUNED BODEDERN

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 (£) | 31 Mawrth 2025 (£) | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | 33,970 | 38,691 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| 2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 15,000 | 14,000 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| 3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 1,000 | 8,166 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| 4. (-) Costau staff | 960 | 4,713 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob cyflogai ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac YG (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Ni ddylech gynnwys ad-dalu mân dreuliau. |
| 5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| 6. (-) Cyfanswm taliadau eraill | 10,319 | 16,743 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| 7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 38,691 | 39,401 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| 8. (+) Dyledwyr | 0 | 0 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 38,691 | 39,401 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| 10. (-) Credydwyr | 0 | 0 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw benthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 38,691 | 39,401 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| 12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 25,095 | 35,575 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| 13. Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor: | Pecyn Cymorth |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| 1. Mewn ymgynghoriad â'r gymuned, rydym wedi datblygu gweledigaeth a diben ar gyfer y Cyngor ac wedi defnyddio'r weledigaeth hon i oleuo cynlluniau, cyllideb a gweithgareddau'r Cyngor. | ✓ | | Wedi ymgynghori â'r gymuned ac wedi canolbwyntio ei weithgareddau i ddiwallu anghenion y gymuned. | A, C |
| 2. Rydym wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion ac wedi rhoi cynllun hyfforddi priodol ar waith ar gyfer aelodau i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. | ✓ | | Yn sicrhau bod cynghorwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod wedi eu harfogi i'w cyflawni. | B |
| 3. Rydym wedi sicrhau ein bod yn cyhoeddi'n electronig yr wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ei chyhoeddi, ar ei wefan yn [mewnosodwch enw'r wefan]. | ✓ | | Yn dryloyw ynglŷn â'i weithgareddau ac yn darparu'r holl wybodaeth ar gyfer y cyhoedd sy'n ofynnol yn gyfreithiol. | A, C, D, E |
| 4. Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys cyflogi staff a thalu lwfansau i aelodau. | ✓ | | Wedi gwneud dim ond y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae'n gwneud hynny. | |
| 5. Rydym wedi mabwysiadu rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol a chylchoedd gorchwyl ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn wrth gynnal busnes gan gynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgorau. | ✓ | | Wedi mabwysiadu rheolau a gweithdrefnau i lywodraethu sut y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes gan gynnwys caffael nwyddau a gwasanaethau. | B, E |
| 6. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:<br>• Rheoli ariannol effeithiol gan gynnwys pennu a monitro cyllideb y Cyngor<br>• Cadw cofnodion cyfrifyddu a chofnodion ariannol eraill sy'n gywir ac yn gyfoes a diogelwch yn cofnodion hynny<br>• Adnabod rhwymedigaethau, ymrwymiadau, digwyddiadau a thrafodiadau posibl a allai gael effaith ariannol ar y Cyngor | ✓ | | Wedi cyfrifo ei ofyniad cyllidebol yn unol â'r gyfraith ac yn monitro ei sefyllfa ariannol mewn modd priodol trwy gydol y flwyddyn. | D |
| 7. Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol a rheoli risgiau ddigonol, gan gynnwys:<br>• mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth gan gynnwys gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer awdurdodi a gwneud taliadau<br>• asesu a rheoli risgiau sy'n wynebu'r Cyngor<br>• system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol<br>ac wedi adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn. | ✓ | | Wedi gwneud trefniadau priodol ac wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu arian ac adnoddau cyhoeddus sydd yn ei ofal gan gynnwys trefnu bod person cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, yn rhoi barn wrthrychol i ddynodi a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | D, E |
| 8. Rydym wedi cymryd camau gweithredu priodol ar bob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ✓ | | Wedi ystyried a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â gwendidau/materion a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | D, E |

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor: | Pecyn Cymorth |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| 9. Rydym wedi rhoi cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | √ | | Wedi rhoi'r cyfle i bob person â buddiant edrych ar gyfrifon y corff fel a nodir yn yr hysbysiad o archwiliad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. | E |
| 10. **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** – Mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | | √ | Yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. | E |

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

## Nodiadau datgelu ychwanegol

Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol

| **Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |
|---|
| **1. Gwariant dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br>Mae Adran 137(1) Deddf 1972 yn caniatáu i'r Cyngor wario ar weithgareddau nad oes ganddo unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er lles, ac y bydd yn dwyn budd uniongyrchol i, yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant. Mae Adran 137(3) hefyd yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant at rai dibenion elusennol ac eraill. Yr uchafswm gwariant y gellid ei ysgwyddo dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 oedd £10.81 yr etholwr.<br>Yn 2024-25, fe wnaeth y Cyngor daliadau yr oedd eu cyfanswm yn **£600.00** dan adran 137. Mae'r taliadau hyn wedi'u cynnwys o fewn 'Taliadau eraill' yn y Datganiad Cyfrifyddu. |
| **2.** |

## Cronfeydd Ymddiriedolaeth

| Cronfeydd ymddiriedolaeth – Mae'r Cyngor yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer, ac mae'n gyfrifol am reoli, cronfa(cronfeydd)/asedau ymddiriedolaeth. Nid ydym yn cynnwys trafodiadau sy'n ymwneud â'r ymddiriedolaethau hyn yn y Datganiad Cyfrifyddu. Yn ein cymhwyster fel ymddiriedolwr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas â'r atebolrwydd am y gronfa(cronfeydd) gan gynnwys adrodd ariannol ac, os yw'n ofynnol, archwilio annibynnol. | **Do** | **Nad do** | **Amh** | Wedi cyflawni ei holl gyfrifoldebau lle mae'n unig ymddiriedolwr rheoli ar gyfer ymddiriedolaeth leol neu ymddiriedolaethau lleol. |
|---|---|---|---|---|
| | | | ✓ | |

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol** | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor** |
|---|---|
| Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. | Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod cofnod:<br>**Cyfeirnod cofnod:** |
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:** [signature] | **Llofnod y Cadeirydd:** [signature] |
| **Enw:** DYLAN HUGHES | **Enw:** JANE ANN ROBERTS |
| **Dyddiad:** 23/6/2025 | **Dyddiad:** 23/06/2025 |

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a barn archwilio

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o Ddatganiad Blynyddol **Cyngor Cymuned Bodedern** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Cynhaliwyd fy archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Barn archwilio: Amodol**

Heblaw am y materion a adroddir isod yn fy Sail ar Amod, ar sail fy archwiliad, yn fy marn i nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos i bryder bod, mewn unrhyw agwedd materol, y wybodaeth a adroddir yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nid yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nid yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; ac
- nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**Sail ar Amod**

**Datganiad Cyfrifyddu**

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Cyfrifyddu yn cyflwyno'n briodol dderbyniadau a thaliadau a sefyllfa ariannol y Cyngor:

- Cofnododd y Cyngor drosglwyddiad materol o arian rhwng ei gyfrifon fel trafodiad incwm. Felly, mae'r ffigur 'Cyfanswm Derbyniadau Arall' yn Llinell 3 o'r Datganiad Cyfrifyddu wedi'i or-ddweud gan £450.
- Nodais daliad o £1,440 i'r clerc blaenorol, a gadarnhawyd ei fod mewn perthynas â'r cyflog sy'n weddill. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ategol o sut y cyfrifwyd y swm hwn, ac ni ddarparwyd tystiolaeth o gymeradwyaeth y taliad hwn gan y Cyngor.
- Nododd fy mhrawf fod y clerc yn cael ei dandalu gan swm sylweddol yn seiliedig ar fy ailgyfrifo gan ddefnyddio graddfeydd NALC a'r symiau a nodir yn y contract cyflogaeth. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Clerc yn cael ei dalu yn unol â'u telerau cytundebol.
- Rwyf hefyd wedi nodi taliad materol arall o £655.91 lle na ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ategol. Dylai'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn cynnal llwybr archwilio digonol ar gyfer pob trafodiad y mae'n ymrwymo iddo.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu y Cyngor ar gyfer y flwyddyn:

- Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth ei fod wedi cyfrifo ei ofyniad cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a bod y praesept wedi'i osod yn unol â'r gyllideb. Ni ddarparodd y Cyngor gopi o'i gyllideb 2024/25, ac felly, ni allaf ddod i'r casgliad bod y Cyngor wedi gosod ei gyllideb 24/25 yn unol â'r Ddeddf.
- Nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ffurflenni blynyddol 2022/23 a 2023/24 sy'n ymwneud ag ansawdd y dystiolaeth ategol ar gyfer incwm a dderbynnir o gladdedigaethau. Felly, mae ymateb cadarnhaol y Cyngor i bwynt 8 ar yr AGS yn anghyson â'i drefniadau llywodraethu ar gyfer 2024/25.

**Materion ac argymhellion eraill**

Tynnaf sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw.

**Annigonol o fanylion yn yr esboniad o amrywiadau**

Bob blwyddyn, rydym yn anfon hysbysiad archwilio i'r Cyngor sy'n nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer archwilio. Mae hyn yn cynnwys manylion gofynion ar gyfer esbonio amrywiadau rhwng cyfrifon y blynyddoedd cyfredol a chyfrifon blynyddoedd blaenorol. Mae canllawiau pellach wedi'u nodi yn y Canllaw i Ymarferwyr. Ni ddarparodd y Cyngor esboniad meintiol o'r amrywiad yn ffigur Llinell 4 (Costau Staff).

Rwy'n argymell bod y Cyngor yn adolygu'r hysbysiad archwilio a'r Canllaw i Ymarferwyr yn ofalus i sicrhau ei fod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer archwilio.

**Praesept heb ei gymeradwyo**

Nododd fy archwiliad nad oedd unrhyw gymeradwyaeth cofnod o'r cais praesept 2024/25. Rwy'n argymell bod y Cyngor yn sicrhau bod y praesept a'r gyllideb yn cael eu cymeradwyo'n llawn a bod y gymeradwyaeth honno yn cael ei ddogfennu'n llawn yng nghofnodion y cyfarfod perthnasol.

**Prosiectau cyfalaf**

Ni ddarparodd y Cyngor unrhyw wybodaeth mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf.

Rwy'n argymell bod y Cyngor yn adolygu'r hysbysiad archwilio blynyddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu yn amserol.

**Cysoni Datganiad Cyfrifyddu**

Mae mân wahaniaethau amherthnasol rhwng y Datganiad Cyfrifyddu a'r llyfr arian. Rwy'n argymell bod y Cyngor yn darparu cysoni llawn o'r Datganiad Cyfrifyddu i'r cofnodion sylfaenol er mwyn sicrhau bod y ffigurau a adroddwyd yn gywir.

**Diffyg cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer taliadau**

Nododd fy mhrofion ddau daliad materol nad oeddent wedi'u cymeradwyo yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor. Rwy'n argymell bod y Cyngor yn sicrhau bod pob taliad gwerth uwch yn cael ei gymeradwyo yn y munudau cyn y taliad yn cael ei wneud.

Nid oes unrhyw faterion pellach yr wyf am eu dwyn i sylw'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| <br>**Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Cymru**<br>**Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Dyddiad: 28/01/2026** |

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** CYNGOR CYMUNED BODEDERN

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad detholus o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a gafodd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd arwyddocaol, eu bodloni trwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| 1. Mae llyfrau cyfrifon priodol wedi cael eu cadw'n briodol trwy gydol y flwyddyn. | ✓ | | | | |
| 2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW. | ✓ | | | | |
| 3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r rhain. | ✓ | | | | |
| 4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ✓ | | | | |
| 5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW. | ✓ | | | | |
| 6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW. | | | ✓ | | |
| 7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, ac fe gymhwyswyd gofynion TWE ac YG yn briodol. | ✓ | | | | |
| 8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac fe'u cadwyd yn briodol. | ✓ | | | | |

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Nadd o* | Amh. | Heb ei gynnwys* * | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ✓ | | | | |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | ✓ | | | | |
| **11.** Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. | | | ✓ | | |

| **Ar gyfer unrhyw feysydd risg a adnabuwyd gan y Cyngor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill neu ar ddalenni ar wahân os oes angen) yr oedd rheolaethau digonol yn bodoli:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
| | Do | Nadd o* | Amh. | Heb ei gynnwys* * | |
| **12.** | | | | | |
| **13.** | | | | | |
| **14.** | | | | | |

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid mewn rheolaeth a adnabuwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

**Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor dyddiedig 16.6.2025.**

## Cadarnhau archwiliad mewnol

IYr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| | |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** | **MR J ALUN FOULKES** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** | AFoulkes |
| **Dyddiad: 16.6.2025.** | |

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda